**Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **30 Ionawr 2003** |
| **Amser:** | **14:00** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 2 a 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol** |
| **Teitl:** | **Adroddiad y Gweinidog** |

## Pwrpas

1. Rhoi'r newyddion diweddaraf ar amrywiaeth o faterion sydd wedi codi ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

## Argymhelliad

2. Gwahoddir yr aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad.

## Y Cefndir

3. Cyfarfu'r Pwyllgor ddiwethaf ar 5 Rhagfyr 2002. Mae'r papur hwn yn rhoi'r diweddaraf.

## Gweithgareddau'r Dirprwy Brif Weinidog

4. 13 Ionawr - Cyfarfod Gweinidogion o Weinyddiaethau Datganoledig sydd â chyfrifoldeb dros yr Ewro. Trysorlys EM.
5. 27 a 28 Ionawr - Cyfarfod y Cyngor Amaethyddol ym Mrwsel (ni chadarnhawyd y bydd yn bresennol).
6. 30 Ionawr - Byddaf yn cyfarfod â'r sawl sy'n cynrychioli Uruguay yn Undeb Rhyng-Seneddol Prydain dros ginio gyda'r nos.

## Gweithgareddau Rhyngwladol Eraill

7. Mae Atodiad 1, sydd ynghlwm, yn rhoi manylion digwyddiadau eraill sy'n cynnwys Gweinidogion a Swyddogion y Cynulliad. Mae Atodiad 2 yn rhoi manylion ymweliadau Aelodau a swyddogion y Cynulliad â swyddfa Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mrwsel.

## Materion Cyffredinol yn ymwneud â’r UE

8. **Newid Llywyddiaeth**. Mae Groeg wedi ymgymryd â Llywyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd oddi

wrth Ddenmarc ers 1 Ionawr 2003. Bydd Mr Bitsios, Dirprwy Bennaeth Cenhadaeth Groeg i'r DU yn annerch y pwyllgor yn ddiweddarach heddiw.

9. **Cynhadledd Copenhagen 12-13 Rhagfyr**. Bydd dogfen arall ar y gynhadledd hon yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor. Cynhadledd wirioneddol hanesyddol lle y cytunodd yr UE i dderbyn 10 aelod-wladwriaeth newydd yn 2004, yn ogystal â dau arall, sef Rwmania a Bwlgaria, yn 2007. Symudodd Twrci hefyd gam yn nes at ymaelodi â'r UE. Bydd y muriau rhwng dwyrain a gorllewin Ewrop a godwyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd, i bob pwrpas, yn cael eu dymchwel o'r diwedd. Bydd yr ehangu hwn yn estyn ffiniau Ewrop i’r hen Wladwriaethau Sofietaidd Belarus a'r Wcráin, a thrwy eu hestyn i Gyprus a Malta, bydd yn gwella ein perthynas â Gogledd Affrica a'r Dwyrain Canol.
10. **Pen-blwydd Cyntaf Cyflwyno'r Ewro**. Ar ben-blwydd cyntaf cyflwyno'r ewro, mae Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd wedi llunio adroddiad ar effaith yr ewro a'r ffordd y mae Ewropeaid yn ystyried y mater. Mae'r Crynodeb Gweithredol wedi'i atgynhyrchu yn Atodiad 3. Gallwch wneud cais am gopïau o'r testun llawn oddi wrth yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol. (Bob Edwards Est 5680).
11. **Secondiadau sy'n ymwneud â'r UE**. (Gwybodaeth y gofynnwyd amdani yn y cyfarfod diwethaf). Mae Atodiad 4 yn nodi nifer y bobl a secondiwyd o Gynulliad Cymru i Sefydliadau Brwsel yn ystod 2002. Yn ddiweddar, rydym wedi bod mewn trafodaethau gyda Chynhadledd y Rhanbarthau Morol ac Ymylol (CPMR) ynghylch y posibilrwydd o secondio aelod staff i weithio gyda hi. O ganlyniad, mae'r Gynhadledd wedi gwneud cynnig, a fyddai'n golygu ei bod hi'n talu rhai o gostau'r secondiad - sy'n arwydd iach iawn o'i hymrwymiad i'r syniad. Mae'n amlwg y bydd angen i'r person a secondir fod yn llysgennad da dros y Cynulliad ac yn rhywun a fydd yn gallu addasu i fywyd yng ngorllewin Ffrainc am gyfnod o hyd at flwyddyn. Mae pencadlys y Gynhadledd yn Rennes, Llydaw. Gallai hyn hefyd ein helpu i ddatblygu syniadau ynghylch y posibilrwydd o greu cysylltiadau rhwng Cymru a'r ardal honno, y mae Prif Weinidog Cymru wedi cytuno mewn egwyddor i ymweld â hi eleni.
12. **Ymaelodi â Chynhadledd y Rhanbarthau Morol ac Ymylol (CPMR)**. Gwahoddwyd Llywodraeth y Cynulliad i arwain y gwaith o gydlynu un o’r pump gweithgor newydd ar gyfer Comisiwn Bwa'r Iwerydd y Gynhadledd. Mae hyn yn rhywbeth a drafodais gyda'r Gynhadledd pan es i'w cyfarfod cyffredinol blynyddol yng ngwlad Groeg hydref diwethaf, ac rwy'n falch bod hyn yn cael ei ddatblygu. Mae'r grwp i gydlynu astudiaeth o ddyfeisgarwch a'i rôl yn y gystadleuaeth rhwng rhanbarthau Bwa'r Iwerydd.
13. **Y Comisiwn Ewropeaidd yn Lansio’r Ail Adroddiad Cynnydd ar Gydlynu**. Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan Aelod-wladwriaethau a gwledydd sy'n ymgeisio am effaith ehangu'r Undeb ar gydlynu economaidd a chymdeithasol, dywedodd y Comisiwn yng nghyfarfod Cyngor yr Undeb Ewropeaidd ar 11 Mehefin 2001 y byddai'n cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Cyngor ar gynnydd.
14. Ar 30 Ionawr, bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn mabwysiadu ei Ail Adroddiad Cynnydd ar Gydlynu Economaidd a Chymdeithasol. Bydd yr Ail Adroddiad yn diweddaru'r ystadegau a ddarparwyd yn yr adroddiad cyntaf ar gynnydd a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2002. Bydd hefyd yn datblygu'r materion sy'n ymwneud â'r ddadl ar gydlynu.

15. Bydd papur ar yr Ail Adroddiad ar Gynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.

**Michael German**
**Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor**